# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**147** **MEDI 1988**

# Pobl Caerdydd!





Da oedd gweld dau o gewri Caerdydd yn cael eu hanrhydeddu yn Eisteddfod Casnewydd eleni. Urddwyd Tom Evans, Cyn-Brifathro Ysgol Gymraeg Coed y Gof a'r darlledydd adnabyddus, y bore golwr, Hywel Gwynfryn i'r Wisg Wen. Llwyddodd ffotograffydd y Dinesydd i'w dal cyn y Storm. Mwy o Gofio Casnewydd ar dudalen 10.



# Beibl William Morgan

Plant Ysgolion Cymraeg Y Wern, Melin Gruffydd a Bro Eirwg yn dathlu pedwar can mlwyddiant cyfieithu'r Beibl. Cafwyd perfformiad gwefreiddiol ganddynt o'r Pasiant 'Beibl i Bawb' yn Theatr Reardon Smith yng Ngorffennaf.

# GAIR O'R POST

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

Taf Elai 28 Mai - 1 Mehefin 1991

Annwyl Olygydd

Carwn fel Pwyllgor Cerdd Dant, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf Elai, 1991 dynnu eich sylw at Gystadleuaeth Cyfansoddi Alaw.

Anelir y gystadleuaeth yn bennaf at ddisgyblion chweched dosbarth sy'n astudio'r cwrs Cerddoriaeth ar ei newydd wedd, ond fe fydd croeso i unrhyw aelod o'r Urdd sydd o dan 25ain oed gystadlu.

Caiff yr alaw fuddugol ei hystyried ar gyfer un o gystadleuthau Cerdd Dant, Eisteddfod yr Urdd, Taf Elai 1991. Cynigir yn ogystal wobr o £25 i'r buddugwr/wraig. Cyhoeddir enw'r enillydd yn yr Wyl Gerdd Dant ym Mhwllheli, Tachwedd 1988.

Am fanylion pellach a ffurflen gais dylid anfon amlen wedi ei chyfeirio at Loreen Williams, 9 Pen y Waun, Efail Isaf, Pontypridd, Morgannwg Ganol, neu at Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, Dyfed.

Yr eiddoch yn gywir

ar ran y Pwyllgor
ALWENA ROBERTS (Cadeiryddes)
LLINOS SWAIN (Is-Gadeiryddes)
LOREEN WILLIAMS (Ysgrifenyddes)

---

Annwyl Gyfaill,

"Fel y gwyddoch, mae cylchgrawn "Golwg" bellach wedi cael ei lansio a bydd yn ymddangos bob wythnos o fis Medi ymlaen. Yn ystod wythnod yr Eisteddfod, roedd diddordeb mawr a brwdfrydedd ynglyn ag o, gyda channoedd o bobl yn tanysgrifio neu am archebu trwy siop. A gawn ni felly ofyn am help darllenwyr y papur bro i wneud yn siwr fod "Golwg" ar gael i bawb?

Rydym yn sefydlu sustem fel bod y cynlchgrawn yn cael ei werthu mewn siopau papur newydd a siopau Cymraeg trwy Gymru gyfan - o'r cadwyni mawr i'r siop bentre'. Rydym yn awyddus i wneud yn siwr fod pawb sydd eisiau derbyn "Golwg" yn gallu ei gael yn brydlon a didrafferth bob bore dydd Iau. Fe fydd yn 32 o dudalennau, yn llawn dop o straeon ac erthyglau wedi eu hysgrifennu'n fywiog o hawdd eu ddarllen.

Felly os oes unrhyw broblem wrth drio cael gafael ar "Golwg, a wnewch chi adael inni wybod? Does dim angen stamp, dim ond rhoi nodyn mewn amlen a'i anfon at "Golwg", Rhad Bost Bwlch Post 4, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed SA48 7ZZ. Pe gallech nodi'r drafferth a rhoi enw'r siop lle byddech chi am dderbyn y cylchgrawn, byddai hynny o help mawr.

Gan ddiolch ichi am ein helpu ni i wella'r gwasanaeth,

Yn gywir iawn,

Dylan Iorweth (Golygydd)

---

CREFFTAU NANT WEN

Platiau Cyfyngedig
I Ddathlu Pedwarcanmlwyddiant
cyfieithu'r Beibl gan Yr
Esgob William Morgan

Annwyl Gyfaill

Fel y cyntaf mewn cyfres o blatiau casgliadol arbennig yn dwyn y teitl "CYMRU YN EI GOGONIANT" cynhyrchir 400 o blatiau clasur arbennig wedi gwydro â ffotograff lliw naturiol o gartref William Morgan - Tŷ Mawr, Wybrnant, ger Penmachno, Gwynedd.

Ar gefn pob un o'r platiau 8½", ymyl aur bydd tystysgrif dilysrwydd. Cynigir y platiau am bris arbennig, £23 yr un, yn cynnwys cludiant.

Fel perchennog plat "Tŷ Mawr" fe gewch chi y cynnig cyntaf o bob plât dilynnol yn y gyfres, ond wrth gwrs ni bydd gorfodaeth arnoch i wneud hynny.

Disgwylir gwerthu da ar y cyntaf yn y gyfres ac felly, y cyntaf i'r felin fydd hi. Archebwch yn gynnar felly, a pheidiwch ag oedi.

I archebu eich plât clasur cyfyngedig "Tŷ Mawr, Wybrnant", anfonwch nodyn â'ch cyfeiriad, a'r arian priodol - £23, a fe gewch eich plât cyn gyntad a bo modd.

Yr eiddoch yn gywir

Ken Thomas, Clive Williams

Crefftau Nant Wen
Heol Bedwellte
Aberbargoed
Morgannwg Canol

(0443) 820542

---

Annwyl Gyd-Gymry

Ionawr eleni penderfynais prynu siwt yn siop Pitlochry Knitwear, 139 Heol y Frenhines, Caerdydd. Ysgrifennais siec yn y Gymraeg ond gwrthodwyd y siec gan y rheolyddes am na allai ddeall Cymraeg. 'Roedd y ffigyrau'n glir a dealladwy. Gwrthodais ysgrifennu siec yn Saesneg a gadewais y dilledyn yno. Wrth gerdded allan mi alwodd fi yn ôl i ddweud nad oedd ganddi'r unrhyw ddiddordeb yn y Gymraeg a dim awydd dysgu dim o'r iaith. Brodores o Gaerdydd ydyw.

Ysgrifennais at Mr A Strickland, Cyfarwyddwr y cwmni yng Nglasgow gan ofyn iddo beth yw polisi Pitlochry ym mhrifddinas Cymru, a nodi bod llawer o'r siopau a'r archfarchnadoedd yn derbyn sieciau Cymraeg.

Ni chefais unrhyw ateb. Ysgrifennais eto mis Mawrth yn holi am ateb. Cefais gydnabyddiaeth gyda troad y post yn sicrhau y byddai llythyr yn dilyn yn fuan yn delio a chynnwys fy llythyr. Ni chlywais byth, er i mi ysgrifennu eto ar y 7 Mehefin. Dywedais y byddwn yn cysylltu a'r wasg lleol pe na chawn ateb. Wel, dyma fi yn cysylltu a'r Dinesydd.

Os ewch i'r siop mynnwch gynnig ar lanw siec i fewn yn y Gymraeg i weld beth fydd yr ymateb.

Cit Boobier

## Yn gywir...

**'Sut i Ysgrifennu Llythyr'**

Ni fydd gan neb esgus bellach i beidio ag ysgrifennu pwt o lythyr gan fod llyfr bach newydd ei gyhoeddi gan Fudiad Cefn yn cynnwys esiamplau hwylus o bob math o lythyron, ar gyfer bob achlysur. Mae'r llyfr 'Sut i Ysgrifennu Llythyr gan D. Arfon Rhys, sy'n Ddarlithydd yng Ngholeg Pen-craig, Llangefni, Ynys Môn, wedi ei gynllunio i roddi hyder i bobl gyffredin i fentro i ysgrifennu llythyron Cymraeg at gyfeillion ac at eraill. Ceir cyfarwyddiadau dwyieithog yn y llyfr i helpu dysgwyr i ddechrau ysgrifennu, ac yn y cefn mae tudalen ar sut i ysgrifennu sieciau gyda'r geiriau cywir ar gyfer bob ffigwr. Dangosir hefyd sut i gyfarch pawb o'r Archesgob i'ch Cynghorydd Lleol mewn llythyr, ac mae'r ychydig o fer deraau busnes Cymraeg yn werthfawr i bawb sydd am wybod y gwahaniaeth rhwng 'nodyn cludiant' a 'nodyn cludo'. Mae'r awgrymiadau ar sut i baratoi llythyr cais am swydd a sut i ysgrifennu llythyr busnes o ddiddordeb arbennig i fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau, tra fod yr enghreifftiau o lythyron diolch, derbyn gwahoddiad, llongyfarch a chydymdeimlo o werth i bawb. Bydd y fam sy'n ysgrifennu llythyr i'r ysgol wedi salwch plentyn yn falch iawn hefyd o'r rhestr enwau salwch a'r esiampl o lythyr a geir yma yn y llyfr. Mae un tudalen yn y llyfr yn egluro sut i baratoi agenda pwyllgor, a sut i fynd ati i alw cyfarfodydd a bydd hyn o gymorth i bob ysgrifennydd cymdeithas leol. Pris y llyfr yw un bunt yn unig, ac mae ar werth yn eich siop lyfrau lleol.


**TAFLEN,**
**12, Duke St. Arcade,**
**CAERDYDD.**
**Ffôn: 227530**

**Mae angen person i werthu yn rhan amser yn y Siop Lyfrau. Am fwy o wybodaeth ynglyn a'r cyflog a'r oriau, cysyllter ag Emyr Huws Jones yn y siop.**



**CANOLFAN YR URDD, CAERDYDD**

**Mae angen person i gynorthwyo gyda gwaith gweinyddol yr Urdd. Gallu i deipio yn hanfodol.**
**10 awr yr wythnos**
**Manylion am y cyflog oddi wrth Canolfan yr Urdd,**
**Ffôn: 236201**

# Colofn Shân Emlyn



Erbyn hyn, gobeithio bod holl ddarllenwyr Y Dinesydd a'u cyfeillion yng Ngwent wedi dadflino ar ôl gorchest o Ŵyl a chwip o Steddfod yng Ngwent. Gwefr a phrofiad oedd Eisteddfod Casnewydd i bawb. Ar un adeg tra'n tranlwyo'r maes hardd chlustfeiniais ar emyn yn cael 'i chanu yn y Pafiliwn - môr o ganu. Sefais yn stond a meddwl - dyma fi ar dir uchelwyr YNG NGWENT o bob man - ar Gymraeg yn atseinio. Trysori'r munudau a mwmian i mi fy hun "Dwi'n siwr bod Arglwyddes Llanofer i fyny'n y fan yna yn rhywle yn gwylio'r cyfan, yn teimlo'n gynnes, yn gwenu ac yn cymeradwyo". Ydi mae'r rhod yn troi yng Ngwent. Llongyfarchwn ein cymdogion yng Nghasnewydd.

Llongyfarchwn ein hunain hefyd os cai ddweud! Bu menter dod â phapur dyddiol Cymraeg i'r maes bob dydd yn llwyddiant mawr. Diolch i bawb fu'n gymaint cefn i'r fenter, gan ymddiheuro i bawb ar yr un pryd inni fethu â chynnwys cymaint o ddeunydd a baratowyd yn ddifyr a pharod gan gynifer ohonoch. Dyna pam y mae'r rhifyn hwn yn cynnwys cymaint o ddeunydd Eisteddfodol Wentaidd gan y tybiaf y cewch flas ar ei ddarllen.

Blas Cas? Choeliai fawr - blas melys iawn fu ar bopeth yng Nghasnewydd, a hwb inni i gyd i ddyfalbarhau yn ein amrywiol ymdrechion i hybu'r iaith.

Carwn grybwyll a diolch i gyfeillion y South Wales Argus am eu cydweithrediad. Credaf i mi a hwy elwa o'r profiad o gydweithio â'n gilydd. I mi un peth sy'n sicir, ar ôl yr Eisteddfod hon, cost neu beidio, mwd neu beidio, mae'n rhaid i'r Eisteddfod barhau i fod yn symudol.

# AGOR Y DRWS

Agorwyd yr ysgol ar y cyntaf o Fedi gyda 59 o blant. Mae dalgylch yr ysgol yn un eang iawn, yn ymestyn o Frynmawr yn y gogledd i Gasnewydd yn y de, a'r plant yn dod o'r unedau Cymraeg ym Mrynmawr, Pengam, Cwmbran, Casnewydd, Pontnewynydd (Pontypwl) a Sofrydd (Crumlin). Dim ond un ohonynt sy'n dod o gartref lle mae'r rhieni yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd a rhyw hanner dwsin yn dod o gartrefi lle mae un rhiant yn medru'r iaith.

Prifathrawes yr ysgol yw Mrs Lilian Jones o Drecelyn, cyn Dirprwy Brifathrawes Ysgol Uwchradd Llyswerri, Casnewydd. Y mae Mrs Jones yn enedigol o Gwmafan, Gorllewin Morgannwg er iddi dreulio'r rhan fwyaf o'i bywyd proffesiynol yng Ngwent. Y mae ei gŵr, Geoff, brodor o Gwmfelinfach, Gwent, yn Swyddog Cyswllt Addysg a Diwydiant y sir a chyn Brifathro, Ysgol West Mon, Pontypwl. Mae ganddynt ddau fab, Geraint a Gareth, oedd ymhlith disgyblion cyntaf Uned Gymraeg Risca yn ôl yn y chwedegau pan ddechreuodd yr ymgyrch i sefydlu addysg ddwyieithog yn y sir.

Dirprwy Brifathro Ysgol Gyfun Gwynllyw yw Mr Arwel Owen, brodor o ardal y Preseli yn yr hen Sir Benfro.

Y mae naw aelod ychwanegol o'r staff, dwy ohonynt yn gyn-ddisgyblion o Uned Gymraeg Risca ac Ysgol Gyfun Rhydfelen, yn dychwelyd ym mis Medi i'w hen sir i ddysgu cenhedlaeth newydd o blant trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Disgwylir i'r ysgol dyfu'n gyflym nes cyrraedd rhyw 550-600 o ddisgyblion yn 1995. Wedyn, pwy a ŵyr? Yr ail Ysgol Gyfun Gymraeg yng Ngwent?



Y DOSBARTH YOGA
- Rhai Argraffiadau

Yn ystod mis Awst, yr oedd tipyn o fwlch ym mywydau'r rhai ohonom a fu'n mynychu Dosbarth Yoga Falmai Evans yn Ysgol Glantaf. Daeth troi allan ar Nos Lun, a'n sachau cysgu wedi'i rholio dan ein ceseiliau bron yn ddefod gennym bellach.

Ond peidiwch â gadael i'r sachau cysgu eich camarwain. Ydyn, rŷn ni'n cael ymlacio ynddynt - ond dim ond ar ddiwedd y wers! Cyn hynny, byddwn yn gwneud llawer o ymarferiadau. Prysuraf i ychwanegu nad oes unryw ymarferion haearnaidd o gwbl. A dweud y gwir, nid ymarferiadau a fyddwn yn wneud, ond yn hytrach safiadau. Mae'r hyn a elwir yn safiad Cyfarch yr Haul, er enghraifft, yn ymgorffori pob symudiad sydd angen i gadw pob cymal yn ystwyth.

Mae'r wers yn dechrau bob wythnos gyda Safiad y Corff. Pawb yn gorwedd ar ei sach gysgu am rai munudau, fel pe bae wedi marw, a Falmai yn ein 'siarad' drwy'r broses o ymlacio pob cymal. Yna dechrau ar y gwahanol safiadau - y cobra, y gath, yr aradr a'r camel yn eu plith - a phob safiad yn ymestyn rhyw gymalau arbennig. Yna rholio'r pen er mwyn cael gwared ar densiwn yn y gwddw.

Byddwn yn cael ein dysgu sut i anadlu'n gywir hefyd - eto er mwyn cael gwared pob tensiwn o'r corff. Ymarferion gwerthfawr yw'r rhain i roi cymorth i wella nerfusrwydd yn gyffredinol.

Ar y diwedd, byddwn yn cael mynd i'n sachau cysgu. Ar ôl tawelu'r corff, tro'r meddwl yw hi nawr. Anogir ni i ganolbwyntio ar ryw wrthrych neu ryw olygfa, gan gloi allan bopeth arall, a'r meddwl yn cyrraedd rhyw stad dangnefeddus, rhwng cwsg ac effro.

Mae mwy a mwy o bobol yn ymuno â'r dosbarth. Yn ystod y sesiwn a aeth heibio, doedd dim lle i bawb yn yr ystafell a gofru rhannu'r dosbarth yn ddau - y sesiwn gyntaf yn dechrau am 6.30 a'r llall am 7.45. Eleni bydd y patrwm yn newid a gobeithir cynnal y naill dosbarth ar Nos Lun a'r llall ar brynhawn Dydd Iau. Bydd manylion pellach yn llyfryn Dosbarthiadau Nos Radyr.

Gawn ni eich cwmni?

**ADRAN NEWYDD O URDD GOBAITH CYMRU**

Bydd Adran o Urdd Gobaith Cymru yn cychwyn nos Fawrth, Medi'r 20fed, rhwng 5 a 6 o'r gloch yng Nghanolfan Ieuenctid Ty Celyn. Gwahoddir yn gynnes unrhyw blentyn rhwng 6 a 12 oed o ardaloedd Y Waun, Parc y Rhath, Cyncoed, Penylan, Llanishen a Llysfaen.


ATHRO PIANO A CHYFEILYDD.
Emyr W Roberts; Bmus LRAM LTCL:
Neuadd Croesoswallt;

Birchwood Road;
Penylan;
Caerdydd;
Glenwood;
St Meugain
Rhuthun;
Clwyd Rhif Ffon 2723;

# Y DYSGWYR

Daliwch ati, bobl Gwent!

Dyma fi'n ysgrifennu erthygl i'r 'Dinesydd' - papur bro Cymraeg nad oeddwn erioed wedi clywed amdano ryw bum mlynedd yn ôl. Y mae rheswm da dros hynny, oblegid, fel y rhan fwyaf o drigolion Gwent, yr wyf yn dod o deulu di-Gymraeg. Ond ychydig o flynyddoedd yn ôl, deuthum i sylweddoli pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a phenderfynu ei dysgu. O ganlyniad yr wyf, bellach, yn un o'r 1 - 4% o bobl yng Ngwent sydd yn medru'r Gymraeg - canran isel iawn o gymharu â'r siroedd eraill yng Nghymru, ac am y rheswm hwn y mae Cymry Cymraeg mannau eraill o Gymru wedi beirniadu Cymry di-Gymraeg Gwent yn hallt ar hyd y blynyddoedd gan ddweud ein bod wedi troi ein cefn ar Gymru a'i hiaith. Ond, a ydyw hyn yn feirniadaeth deg o drigolion Gwent?

I ddechrau, y mae'n rhaid cofio mai ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ydyw Gwent, ac felly naturiol oedd i ddiwylliant Lloegr ddylanwadu fwyaf ar y siroedd hynny sydd ar ororau Cymru ac, mewn ffordd, y mae Gwent, fel rhannau o Bowys a Chlwyd, wedi gweithredu fel byffer i'r siroedd eraill yng Nghymru gan sicrhau nad ydyw dylanwad y Saeson wedi eu cyrraedd â'r fath effaith.

Wrth ystyried hanes ein gwlad, gwelir bod dylanwad y Saeson ar Went yn mynd yn ôl dros ganrifoedd. Dioddefodd Gwent ar ôl y Ddeddf Uno ym 1536 a 1542, er enghraifft, pan wnaethpwyd Sir Fynwy yn rhan o Loegr, ond yn amlycach byth oedd effaith y Chwyldro Diwydiannol ar Went (a Sir Forgannwg o ran hynny) oblegid Saesneg oedd iaith rheolwyr y Pyllau glo a'r Gweithfeydd dur etc, a'r gweithwyr a fewnfudodd i'r ardal. Felly, er ei bod yn hawdd i Gymry Cymraeg siroedd eraill feirniadu pobl Gwent heddiw am beidio â siarad Cymraeg y mae'n rhaid cofio yr oedd ein hynafiaid yn ddiymadferth yn erbyn y fath chwyldro yn hanes ein sir - chwyldro mor fawr ei ddylanwadnad yw'r rhan fwyaf o'r siroedd Cymraeg eu hiaith hyd heddiw erioed wedi ei wynebu i'r fath raddfa.

Eithr, fy neges i ydyw y dylem ganmol pobl Gwent am beidio ag anghofio mai Cymry ydynt yn y bôn, (er na all y rhan fwyaf ohonynt siarad Cymraeg). Ac, yn wir, ymddengys fod deffroad yn cymryd lle yng Ngwent heddiw ynglŷn â'r Gymraeg, gyda nifer fawr o oedolion yn mynychu dosbarthiadau nos i ddysgu'r Gymraeg a chyda'r fath nifer o rieni mor awyddus i'w plant gael addysg Gymraeg fel bod mwy a mwy o ysgolion Cymraeg newydd yn y sir.

Ac, eleni, am y tro cyntaf ers 1958, cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngwent - ac yn wir, yn un o drefi mwyaf 'Seisnig' y sir. Ai cydnabyddiaeth ydyw hyn o'r ffordd y mae trigolion Gwent wedi ymdrechu dros yr iaith yn ddiweddar? Ac, yn wir, dyma'r cyfle gorau ers meityn i hybu'r iaith yn ein sir, ac i brofi ein bod ni pobl Gwent yn haeddu cael ein hystyried yn 'Gymry' gymaint ag unrhyw Gymro arall yn y wlad.

Fe ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Gasnewydd. Beth mae hyn wedi'i olygu i fi, fy nheulu a phobol Casnewydd?

Fe ddechreuodd yr antur dros ddwy flynedd yn ôl ond dydy ein brwdfrydedd a'n cynnwrf ddim wedi lleihau o gwbwl.

Fe feddylies i yn y dechrau yr hoffwn i siarad Cymraeg yn rhugl cyn bod yr Eisteddfod yn cyrraedd. Fe ddechreuais i gwrs Wlpan ym mis Medi 1986 a fe lwyddes i'r arholiad lefel 'O' i oedolion ym mis Mehefin 1987. Dydw i ddim wedi cyrraedd fy mwriad eto ond fe wnaf i yn y dyfodol. Rydw i eisiau sefyll yr arholiad lefel 'A' rhywbryd.

Fe gafodd Janet, fy ngwraig i, ei dewis yn 'Fam y Fro'. Felly mae hi'n cyflwyno'r Corn Hirlas yr wythnos hon. Mae ein teulu ni'n falch iawn ac yn edrych ymlaen i seremoniau'r wythnos. Ond dydy e ddim wedi bod heb broblem. Mae ein tŷ ni wedi bod yn llawn sŵn 'Breuddwyd y Frenhines' ac ati am wythnosau a bydda i byth yn anghofio fy nhraed blinedig i ar ôl cerdded drwy Gasnewydd a Chaerdydd yn edrych am sandalau aur iddi hi.

Mae fy mhlant i wedi mwynhau'r antur hefyd. Mae Rhys yn mynd i Ysgol Gymraeg Casnewydd yn High Cross ac mae Lowri'n mynd i'r cylch Meithrin yn Nhŷ Brynglas. Mae llawer o weithgareddau wedi bod yn yr ysgol ac ym Meithrin.

Rydyn ni a'n ffrindiau wedi bod yn mwynhau ein hunain yn codi arian hefyd. Roedd cyngherddau, Twmpathau a digwyddiadau eraill yn aml, gyda seremoni'r Cyhoeddi, y seremoni Groeso ym Mhorthmadog a ras noddedig yr Eisteddfod yn pinaclau. Roedden ni mor falch i weld plant ysgolion Cymraeg Gwent ar lwyfan yr Eisteddfod ym Mhorthmadog.

Barn bersonol oedd hynny ond mae mor fach mewn cymhariaeth i beth mae'r Eisteddfod yn ei olygu i ni sy'n brwydro dros yr Iaith yng Ngwent. Mae'r Eisteddfod wedi helpu i sefydlu Ysgol Gyfun Gwynllyw, ac yn sicr fe fydd yn helpu i gyflymu sefydlu Ysgolion Cynradd Cymraeg yng Ngwent yn y dyfodol agos. Mae'r olwyn yn troi a nawr mae rhaid i ni wthio'n fwy caled i wneud yn siwr ein bod ni'n llwyddo.

Len Butcher

---

Sut mae? Liz Cole ydw i, dysgwraig o Goed-Duon. Dwi'n ugain mlwydd oed a dwi'n dod o deulu di-Gymraeg. Dechreuais ddysgu'r iaith pan es i yn unarddeg, i Ysgol Gyfun Coed-Duon - ysgol Saesneg. Yn wir, o'n i'n lwcus i gael y cyfle i ddysgu'r iaith oherwydd nad yw pob ysgol yng Ngwent yn cynnwys Cymraeg yn y maes llafur.

Roedd y dewis i wneud Cymraeg ar gyfer lefel 'O' yn un hawdd, achos erbyn hynny o'n i wedi dechrau blasu'r bywyd Cymraeg - wedi ymuno a'r Urdd, wedi mynd i Langranog ar gwrs iaith, wedi cystadlu mewn eisteddfodau.

Es i ymlaen wedyn i Goleg Crosskeys i astudio Cymraeg fel ail iaith ar gyfer lefel 'A'. Dyna oedd fy nghyfle cyntaf i astudio llenyddiaeth Gymraeg ac i sylweddoli pa mor grymus a chyfoethog ydi hi. O'n i'n awyddus iawn i fynd i'r brifysgol i astudio'r Gymraeg.

Ymlaen i Aberystwyth, ac i mewn i'r grŵp iaith gyntaf! Nid fy ddewis i oedd hyn, ac yn wir o'n i dan anfantais fawr - roedd pawb arall yn y grŵp yn Gymry Cymraeg, ac wedi astudio cryn lawer mwy o lenyddiaeth na fi. O'n i'n byw yn Neuadd Pantycelyn, neuadd Cymraeg, ac yn cael y siawns am y tro cyntaf i siarad Cymraeg pob diwrnod - ond nid oedd hyn yn fy helpu i lawer wrth astudio 'Y Mabinogi' yn y gwreiddiol!

Wel, sut y gwnes i basio'r flwyddyn gyntaf yn rhyfeddod i fi o hyd. Erbyn y diwedd o'n i wedi cael llond bol o'r Gymraeg fel pwnc. Ond er 'mod i nawr yn gwneud gradd cyfun yn Saesneg ~~ac~~ a Drama trwy gyfrwng y Gymraeg; dwi'n mynd i Langrannog fel swog i helpu dysgu'r iaith i blant eraill sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg; a dwi'n mynd i gapel Cymraeg. Mae'n iaith byw i fi nawr yn hytrach na phwnc academaidd.

Dwi wedi cael lot o hwyl trwy siarad Cymraeg. I'r rhai ohonoch sy'n dysgu'r iaith: dal ati! Ac i'r Cymry Cymraeg: cefnogwch nhw!

Elizabeth M D Cole

---

Stiwardiaid 'Superbe'

Cynhaliwyd cwrs Cymraeg ar gyfer darpar stiwardiaid yr Eisteddfod yng Ngholeg yr Hill, Y Fenni. Fe gafodd un o'r myfyrwyr, Maureen Lewis, Croes-y-Ceiliog, flas arbennig ar y cwrs - dyma ei rysait.

Cynhwysion

1 trefnwr
3 athro egniol gyda llawer o hwyl
32 o ddysgwyr
26 owns o bapur
bwyd da
180 'paratoi personol'
360 gwersi iaith
1 cwis
1 Noson Lawen
1 Twmpath
3 Fideo
4 Ffilm
1 helfa drysor mewn ceir
1 taith gerdded (4 milltir)
1 taith o gwmpas Maes yr Eisteddfod (gyda picnic)
10 owns o amynedd
1 Sylvia Horne gyda H T V

Dull

Cyfarfod ym mhlasty prydferth The Hill. Cymysgwch am wythnos a thywydd braf. Storiwch mewn tun am 3 wythnos.

Yna wythnos gyntaf mis Awst, gadewch y stiwardiaid i ofalu am faes yr Eisteddfod.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

**ARIES:** Os bu bywyd ychydig yn dawel yn ddiweddar, a'ch bod chithau'n teimlo bod pob cyfle yn eich pasio heibio, wel nawr yw'r amser i anelu'n uchel, yn enwedig yn y gwaith, ewch am ddyrchafiad neu swydd newydd; mae'r gallu gyda chi, ac mae'r ser o'ch ochor! Cofiwch gadw ffrwyn dynn ar eich tymer, dydych chi ddim am ddigio neb!

**TAURUS:** Y mis hwn materion y galon sy dan sylw fwyaf! Felly os y cawsoch eich siomi'n ddiweddar, neu bod eich perthynas dan dipyn o gwmwl, fe ddylai pethau wella'n sylweddol yn enwedig ar ol y lleuad newydd ar yr lleg o'r mis. Dylai pethau fynd yn ardderchog yn y gwaith hefyd, yn enwedig ar ol yr 22ain.

**GEMINI:** Rhaid i chi fod yn hyblyg y mis hwn. Byddwch yn barod i newid eich cynlluniau eich agwedd a'ch barn ar amrantiad. Bydd rhaid derbyn mai eraill sydd yn iawn, a chi sydd ar fai. Os mynnwch chi gael ffordd eich hunan yna cewch eich ystyried yn styfnig a phenstiff. Mae hwn yn fis ffafriol i symud ty.

**CANCER:** Mae newidiadau mawr ar y ffordd yn y gwaith. Nawr yw'r amser i ddangos eich gallu a'ch brwdfrydedd i'ch cyflogwyr. Ac os na fyddan nhw yn eich gwerthfawrogi yna chwiliwch am sydd newydd; chewch chi mo'ch siomi! Mae eich llwyddiant nawr yn dibynnu ar sut y gwnaethoch chi ymddwyn yn y gorffennol.

**LEO:** Efallai eich bod yn geimlo nad yw pethau'n mynd yn rhy dda ar hyn o bryd. Mae'n bosib eich bod yn glynu wrth hen obaith, hen agwedd o'ch bywyd. Gadewch iddo fynd er mwyn i chi gael troi tudalen newydd gyffrous yn eich bywyd. Fe ddaw pethau'n well o lawer maes o law - yn ariannol hefyd.

**VIRGO:** Mae'r lleuad newydd ar yr lleg yn argoeli'n ardderchog i chi. Amser i ddechrau penod newydd gyffrous a llwyddiannus yn eich bywyd. Rhowch eich hunan yn gyntaf am unwaith, fe allwch fod yn rhy barod eich cymwynas weithiau gan adael i eraill gymryd mantais o'ch natur garedig.

**LIBRA:** Rydych chi'n gwneud gormod weithiau i blesio eraill a'r mis hwn mae 'na bobl ddiegwyddor o gwmpas a'u bryd ar gymryd mantais ohonoch chi. Peidiwch a gadael iddyn nhw - neu chi fydd yn dioddef. Mae hwn yn fis ardderchog i gymdeithasu ac i deithio. Ewch am wyliau sydyn!

**SCORPIO:** Mae yna newidiadau mawr am ddigwydd yn eich bywyd dros y blynyddoedd sy'n dod. A'r mis Medi hwn fe gewch sawl cyfle i wella'ch byd, ond bydd raid i chi ddilyn eu trywydd a gweithio i gymryd mantais ohonyn nhw. Chewch chi ddim o werth heb weithio amdano ar hyn o bryd.

**SAGITARIUS:** Dyw pethau ddim wedi bod yn hawdd i chi yn ystod y blynyddoedd diwetha yma ond credwch fi mae'r dyddiau o ansicrwydd bron ar ben a mi gewch gyfle ar ol y lleuad newydd ar yr lleg i wella'ch byd yn sylweddol. Mi ddylech gael llwyddiant yn y gwaith hefyd.

**CAPRICORN:** Bydd y mis yn dechrau braidd yn gymysglyd a chithau'n teimlo eitha isel a diflas ond byddwch lawen - mae newidiadau mawr yn yr arfaeth! Ac erbyn diwedd y mis mi fyddwch yn gwybod yn hollol i ba gyfeiriad y dylech fynd. Anwybyddwch y rhai sydd yn eich erbyn, dydyn nhw ddim werth taten!

**AQUARIUS:** Mae hi wedi bod yn hen flwyddyn eitha anodd hyd yn hyn ac yn un y cofiwch trwy'ch oes. Ond mae pethau yn mynd i wella'n raddol o hyn ymlaen. Ar ol y lleuad newydd ar y lleg mi fyddwch yn torri cysylltiad poenus. Efallai daw prinder arian yn sgil hynny am gyfnod byr.

**PISCES:** Dyw pethau ddim wedi bod yn sefydlog iawn i chi yn y gwaith ers tro bellach ac efallai eich bod wedi cael trafferth gyda'ch rhieni. Daw pethau'n well o hyn ymlaen. Nawr yw'r amser i ganolbwyntio ar eich perthynas. Cymrych ofal, mae ychydig o dwyll o'ch cwmpas ar hyn o bryd.


YMUNWCH AG U.C.A.C.

DROS GYFUNDREFN
ADDYSG ANNIBYNNOL
I GYMRU

Cysylltwch â
Phrif Swyddfa U.C.A.C.
Pen Roc, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth, Dyfed, SY23 2AZ
Ffôn: 0970 615577


# Menna'n manylu

Ydech, 'dechi'n iawn - mwy o hanes y Steddfod sydd genna innehefyd. Weles i fawr ohoni a deud y gwir - pnawn yn unig ges i yno a rhyw ychydig orie yma ac acw rhwng ymarferiade. Ches i fawr o 'night life' y Steddfod arferol chwaith, na gweld yr hen griw 'selog ymhob sioe'! Mi aeth pedair noson yn cystadlu fy hun a'r ddwy arall yn eitha gwastraffus a deud y lleia yn gweld 'high and mighty' Meic Stevens' yn mynd trwy'i betne. Yn y Clwb Llafur weles i o gynta efo'i "fund" honedig! Weles i rioed berfformiad mor wael gan neb - y cwbwl wnoeth o a'r criw oedd tiwnio'r offerynne a chanu tair neu bedair cân fwy nag unwaith, ac mi fu'n ymddiheuro lawer tro nad oedd o a'r band erioed wedi chware efo'i gilydd o'r blaen - wel, roedd hynny'n hollol amlwg i bawb. Ond, 'doedd y ffans ifanc yn eu dillad 'am y blera', ddim callach ei fod mor druenus o sâl - roedd sŵn aflafar cerdd or aeth y 'blues' trwy'r nos yn plesio'n iawn iddyn nhw gael 'bop' iddo.

Mi gawsom nosweithie da iawn efo Cwmni Drama'r Fuwch Goch hefyd - perfformio'r ddrama 'Eli'r Galon' (Moliére) a'r rifiw 'Os mêts, mêts' ym mragdy Tŷ Tredegar, ac er cyn lleied y gynulleidfa, roedd y derbyniad yn wresog a'r awyrgylch tafarn yn gweddu i'r math hwn o berfformiad i'r dim. Yna, ddiwedd yr wythnos, daethom yn gyntaf efo'r ddrama, a diolch i'r hen Ynyr Williams am lyginio efo ni unwaith eto - mi fydd yn golled fawr i'r cwmni os eith o tua'r Aberystwyth 'ne. Yn ail yn y gystadleuaeth hon oedd cwmni Ysgol y Berwyn gyda Parc, ger y Bala'n drydydd. (Dyne i chi dalent yr ardal ar ei ore!!) Roedd Theatr y Dolman i'r dim i berfformio'r ddrama ar y nos Wener, gyda'r offer electronig yn agoriad llygad i'r mwyaf proffesiynnol yn ein mysg. Ond gyda'r rifiw ar y nos Iau, roedd siom ar fwy nag un ystyr. Bu'n perfformiad ni a'r parti arall yn eitha caboledig ar y cyfan, ond y gŵyn fwyaf i Bwyllgor Drama'r Eisteddfod ydi nad theatr a llwyfan ydi'r lle mwya delfrydol i berfformio RIFIW.

A dyne ddod at yr ail gŵyn - y feirniadaeth wrth gwrs - a dwi'n deud hyn heb fod yn genfigenus na sarhaus o'r cwmni ddaeth i'r brig, sef Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Cafwyd perfformiad graenus iawn ganddynt yn portreadu dirywiad ym mywyd y cymoedd. Ond, wedi hir drafod a dadle, nid yn unig yn ein mysg ni ond ymysg y gynulleidfa hefyd, yn ddiamau CYFLWYNIAD LLAFAR gafwyd ganddynt, ac nid rifiw. Rhyfedd iawn fydde gweld côr cerdd dant yn dod yn gyntaf mewn cystadleuaeth canu pop yn de!

Ond dyne fo, gwell i mi dewi mae'n siŵr, neu mi fydd rhywun yn sicir o'm cyhuddo o fod yn gollwr sâl a bod 'na gythrel yn y byd actio yn ogystal â'r byd canu hefyd yn yr hen Gymru fach 'ma! Ond be sy'n deg sy'n deg yn y bôn ie ddim?

# Yn galw llengarwyr!

Eleni mae Cylch Llyfryddol Caerdydd yn dechrau ar ei thrydedd flwyddyn. Bu dwy flynedd cyntaf ei fodolaeth yn rhai digon llwyddiannus. Cafwyd cyfarfodydd amrywiol a blasus a llwyddwyd i ddenu nifer go dda yn aelodau.
Y patrwm fu cynnal hanner dwsin o gyfarfodydd yn fisol dros y gaeaf. Cafwyd ambell ddarlithydd gwadd - Mr. Alun Creunant Davies i son am dwf y Cyngor Llyfrau Cymraeg, a Dr. Brynley F. Roberts y Llyfrgellydd Cenedlaethol, i siarad am nai i Napoleon Bonaparte a ymddiddorodd yng Nghymru, ei hiaith a'i llen. Bu eraill o'r cyfarfodydd yng ngofal aelodau o'r Cylch ei hun - Dr. R. Elwyn Hughes yn siarad am ysgrifennu gwyddonol Cymraeg yn y ganrif ddiwethaf; Mr. W.J. Jones yn hel ei atgofion am gyhoeddi ar gyfer plant, a Mr. Aneirin Lewis yn son am yr Athro Griffith John Williams a'i lyfrgell - a phrofwyd yn ddi-os nad oedd raid bod a chywilydd o'n 'brethyn cartref'.
Ar dro hefyd buwyd yn ymweld a llyfrgell arbennig a chael ein cyflwyno i'w thrysorau - Llyfrgell Salisbury, Llyfrgell Ganol Caerdydd a'r Amgueddfa Werin. Ac yn glo ar y ddau dymor fel ei gilydd cafwyd noson hynod ddifyr dan ofal Mr. Robin Gwyndaf pryd y siaradodd nifer o aelodau'r Cylch yn fyr am ryw lyfr neu bamffledyn yr oeddynt yn ei drysori a'r rheswm dros hynny.
Wrth ddechrau ar dymor newydd o weithgarwch, estynnir gwahoddiad cynnes i eraill ymaelodi yn y Cylch. Dim ond £3 yw'r tal aelodaeth am y flwyddyn - bargen yn wir y dyddiau hyn. A gellwch fod yn sicr y cewch nosweithiau diddan mewn awyrgylch cartrefol am eich arian. Mae englyn Mr. Arfon Williams, 'bardd teulu' y Cylch, yn dweud y cwbl :

<u>Cylch Llyfryddol Caerdydd</u>

Ambell dro rhown y gorau i'n gerddi
i gwrddyd a ffrindiau
sy'n trin a thrafod blodau
o hen ardd a'u gwir fwynhau.

T. Arfon Williams

Os cawsoch flas ar Babell Len Eisteddfod Casnewydd eleni, gwnewch yn siwr o'ch lle yn y Cylch y gaeaf hwn.
Ar nosweithiau Gwener y mae'r Cylch yn cyfarfod, a hynny am 7 o'r gloch. Cynhelir **y cyntaf a'r olaf** o'r cyfarfodydd y tymor hwn (sef y rhai ar 23 Medi 1988 ac ar 17 Mawrth 1989) yn festri Capel y Tabernacl ar yr Ais. Cynhelir **y pedwar cyfarfod arall** yn Ystafell G1 yn Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd (un o'r adeiladau oddi ar Colum Road). Dyma raglen Gaeaf 1988-89 :

**23 Medi, 1988**
**Baledi Morgannwg**
**Noson yng nghwmni Menna Thomas, Dafydd Idris ac E. Wyn James**

21 Hydref, 1988
Yr Apocryffa yn Gymraeg 1588-1988
gan Ceri Davies

18 Tachwedd, 1988
John Bunyan (1628-88): Ei Gefndir a'i Gyfraniad i Lenyddiaeth Gymraeg
gan J. Gwynfor Jones

20 Ionawr, 1989
Chwilota - Cynhyrchu Enseiclopidia
gan D. Gwyn Jones

17 Chwefror, 1989
Fy Mhrofiadau yn y Fasnach Lyfrau Ail-Law
gan David Harbourne

17 Mawrth, 1989
Trysorau Llen
Noson yng ngofal Robin Gwyndaf pryd y bydd nifer o aelodau'r Cylch yn arddangos rhai o'u trysorau llyfryddol personol ac yn siarad amdanynt.

Am ragor o fanylion, cysylltwch a'r Ysgrifennydd: Mr. E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. CF4 2AJ. (Ffon: 628754)

# Guto

Pan ddaw **CARREG ATEB** yn ol ym mis Medi Guto fydd y prif gyflwynydd wythnosol. Roedd cynhyrchydd y gyfres (a'r cyn-gyflwynydd) Emlyn Davies, yn ymwybodol o'r ymateb i'r rhaglen bod llawer o bobl ifanc yn ei gwylio ac wedi sylwi hefyd fod llawer ohonynt yn camu i mewn i'r caban i ddweud eu barn, felly, mae'n falch mai gwr ifanc 22 oed yw'r cyflwynydd newydd.

Brodor o Gaerdydd yw Guto. Mae bellach yn gweithio fel newyddiadurwr ar ei liwt ei hun ar ol blwyddyn yng Nghanolfan Newyddiaduraeth Coleg y Brifysgol Caerdydd. Cyn dilyn y cwrs yng Nghaerdydd bu'n astudio Gwleidyddiaeth, Athroniaeth ac Economeg yng Ngholeg y Frenhines, Rhydychen.

Gyda Guto ar y **CARREG ATEB wythnosol** bydd Aled Sam a'i sylwadau crafog arferol a cheir adroddiadau achlysurol gan Glenda Wyn Hughes sy'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Ac wrth gwrs, yn sail i hyn oll, sylwadau'r gwylwyr yn dilyn ymweliadau Bedwyr a'i Fws i bedwar ban Cymru.



# PARANOIA?

Mae eleni'n flwyddyn arwyddocaol iawn imi, â'r haf yma'n drobwynt chwyldroadol. Oherwydd rwy wedi penderfynu rhoi'r gorau i rywbeth bûm yn ei geisio'n ofer; wedi penederfynu stopio g'neud rhywbeth. Ar ôl pum mlynedd o wario arian, gwastraffu amser a mynd yn sâl arno fo, rwy' wedi cicio'r habit. Rhoi'r ffidil yn y to. Am be' ydw i'n sôn? Mewn gair - torheulo. Rwy' wedi gweld y golau (os nad yr haul) o'r diwedd, ac, yng ngeiriau'r bardd, "daeth i ben dethi brown". Ta ta tan!

Pam y newid agwedd yma? Pam na welir mohona i mwyach yn rhuthro i'r ardd gefn y munud y daw'r haul o du draw i'r cwmwl? Pam nad af eto i Deneriff, Maiorca, Corffŵ, i frownio'n sweth yn yr haul? Am fy mod i'n paranoid - dyna pam. A'r rheswm? Caner y croen. Nawr, nid pwnc ysgafn mo hwn, ac er fy mod i'n trio swnio'n ysgafn a dihitio, credwch chi fi, mae'r peth yn fy nychryn yn ofnadwy. Ac os welwch chi "This Week" rai wythnosau yn ôl, byddwch yn deall pam. Gyda'r "ozone layer" yn teneuo, a chyda mwy a mwy ohonom ni bobol croen golau yn grilio'n erwyn am bythefnos yn y Med bob haf, mae'n debyg fod caner y croen yn cynyddu i'r graddau bod rhai doctoriaid yn sôn am epidemic. Ac i rywun fel fi, sy 'mond isio clywed am glefyd i feddwl - na, i fod yn argyhoeddiedig - mod i'n diodde' ohono fo, dyw newyddion fel hyn ddim yn gneud imi ruthro am fy micini a'm Ambre Solaire. Na, tu nôl i gyrtens fydda' i haf yma, yn syllu ar fy mrychau haul drwy sbieinddrych, rhag ofn fod rhywbeth amheus yn eu cylch. Rhyfedd sut y gall pethe' bach mor ddiniwed brofi'n farwol.....
Wrth gwrs, diniwed ydi'r rhan fwya, ond mae'n wirion temtio ffawd trwy fynnu mynd i'r haul bob cyfle tydi? Ac mae 'na ryw ryddid mawr wedi dod drosof wrth sylweddoli na fydd rhaid imi boeni mwyach am gadw'r tan, am orwedd yn "bored" allan o 'mhen ar draeth, am fod cyn frowned â'r ferch drws nesa. Oherwydd ei chroen hi fydd fel hen ledr ymhen blynyddoedd, nid f'un i . A bydd hafau i wedi eu rhyddhau o'r gaethiwed narsisaidd yma. Hen bryd hefyd!

Angharad Jones






<u>YN EISIAU</u>

O'r Hydref ymlaen, person i ofalu ar ôl merch fach 5 mis oed, yn ardal Llandâf/Tyllgoed.
Cysyllter â 552393

# Celf a Chrefft

# STEDDFOD

Gweila o hyd yw'r ddamcaniaeth am y babell Celf a Chrefft eleni, gydag ymwelwyr yn tyrru yno bob dydd. Erbyn canol y bore yr oedd y lle yn llawn o bobol yn trin a thrafod y gweithiau yn y gwahanol adrannau. Braf oedd gweld digon o ofod yn y cyntedd i bobol sefyll a sgwrsio, ac i syllu ar y darluniau - a chamu'n ôl os mynnent.

Celfyddyd Gain

Allan o dros bum cant o weithiau a gyniqiwyd gan artistiaid, dim ond pum deg chwech a ddewisiwyd i'w harddangos. O'r rhain, yr oedd pymtheg o weithiau gan artistiaid sy'n byw a gweithio yng Nghaerdydd. Bron y gellid honi fod yma 'Ysgol Caerdydd' gan gymaint sydd wedi ei denu i weithio yn yr amgylchfyd arbennig sydd yn perthyn iddi.

Dywedodd Deni Bowen, un o'r ddau feirniad eu bod wedi penderfynu gosod patrwm safonol i'r Eisteddfod a fydd yn sicrhau y bydd artistiaid o safon yn cynnig yn y dyfodol. Barnwyd gan ei gydfeirniad Jeremy Rees, mai siomedig oedd nifer y gweithiau cerfluniol a dderbyniwyd, a mawr obeithia am fwy yn y dyfodol. Efallai y bydd yn rhaid edrych eto ar y gystadleuaeth hon er mwyn ceisio hybu cerflunwaith yng Nghymru.

I rai, siomedig oedd gwaith y plant ieuengaf - nid yn gymaint am y delweddau ond am y diffyg amrywiaeth mewn cyfryngau. Efallai gormod o ddefnydd o biniau ffelt lliw.

Datblygiad newydd gan y Pwyllgor Celf a Chrefft oedd cyhoeddi catalog a oedd hefyd yn llawlyfr yn cynnwys erthyglau a phortreadau o'r prif enillwyr. Gwnaed hyn y bosibl trwy nawdd Cwmni Monsanto. Enillydd y fedal aur mewn celfyddyd cain oedd Keith Roberts ac fe gafodd Iwan Bala a Stephen Young wobrau o £500 yr un a'r tri yn gweithio'n Nghaerdydd.

Crefftau

Y gwaith y syllwyd arno, ac a ryfeddwyd ato gan filoedd o ymwelwyr oedd y gorchedd mur a alwyd yn 'Gwawrddydd' gan Jacquline Jones a Michel Troy, Trefynwy. Barnwyd y fedal aur am gampwriaeth crefft iddi hi.

Siomedig oedd y gwaith coed yn ôl y beirniaid, ond yr oedd gobaith am bethau da i ddod yn ôl gwaith Safon A, Dylunio, Crefft a Thechnoleg.

Pensaerniaeth - Medal Goffa Alwyn Lloyd

Rhoddwyd y fedal aur i benseiri Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru am Ysbyty Gymuned Ystradgynlais, Powys. Tra roedd hwn yn gynllun hynod o ymarferol a deniadol gyda llawer o nodweddion clodwiw iddo, anodd i'w credu nad oes adeiladau eraill wedi eu codi yn ddiweddar yng Nghymru a fyddai'n adlewyrchu mwy o newydddeb a dylunio cyffroes.

ARDDANGOSFEYDD MIS MEDI

Amgueddfa Cenedlaethol Cymru

Y Prif Adeilad, Parc Cathays

16 Medi - 16 Hydref
ANTARTICA - Cyfandir i wyddoniaeth

Darlunir gwaith y sefydliad Antartica i ymchwilio nifer helaeth o wyddorau - biolegol (planhigion, pryfaid, bywyd morol ac adar) daearegol a daearyddol, tywydd a'r atmosffer.

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan

tan 24 Medi
CYFIEITHU'R BEIBL I'R GYMRAEG

Arddangosfa o luniau yn cofnodi hanes cyfieithu'r Beibl, a'r effaith a gafwyd ar y gymdeithas.

tan 23 Medi
NANSI: Brenhines y Delyn

Arddangosfa sy'n olrhain gyrfa gerddorol telynores Maldwyn, Dr Nansi Richards Jones MBE 1888-1979.
(Codi'r tâl am fynediad i'r Amgueddfa)

Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru

Heol Bute

tan 10 Medi
ANTURIAETH AR GYNFAS

Detholiad o beintiadau Ben Maile sy'n dangos gwahanol agweddau ar ddiwydiant Prydain heddiw.

ORIEL

Heol Siarl

tan 10 Medi
IKATS: Sidanau o Ganolbarth Asia, Casgliad Rau

Arddangosfa deithiol y Cyngor Crefftau.

Ffotogallery

Heol Siarl

tan 1 Hydref

TODD WEBB: Ffotograffau o Efrog Newydd a Pharis

Gweithiau sensitif, gonest, yn dangos parch mawr i dystiolaeth o amser a dynoliaeth.

Hefyd - cyfres o weithdai i rai sy'n dechrau dysgu sut i drin a thrafod camera ffilm. Pris £7.50 yn cynnwys defnyddiau. Manylion o 31 Heol Siarl. Ffôn 341667

Seiriol Davies



Deuoliaeth (Y Gelyn Mewnol)
Olew gan Iwan Bala Llun: Jeff Morgan

# TW

T W THOMAS

Os bu erioed ymgorfforiad o ddiwylliant Bro Morgannwg ar ei orau, T W Thomas, Pentyrch yw hwnnw. Mae'r dafodiaith leol yn llithro'n hyfryd dros ei fin. Mae e'n gwybod am bob un o'r gwythiennau teuluol ymysg brodorion plwyf Pentyrch, a Gwaelod y Garth, a chanddo doreth o storiau am gymeriadau gwreiddiol y fro honno. Magwyd ynddo yn ifanc flâs at lenyddiaeth a drama a hynny'n bennaf drwy ddylanwad ei arwr o weinidog -y Parched R G Berry. A gall T W alw o'i gof anhygoel lu o englynion a thribannau a dywediadau - addas at bob amgylchiad.

Un o feirdd cefn gwlad olaf Bro Morgannwg oedd Ioan Trithyd - a fu farw yn 1930 yn gant oed. Roed T W yn nabod Ioan Trithyd yn dda iawn a mae e'n hoff o adrodd cynnyrch y bardd lleol hwnnw. Er enghraifft, englyn Ioan Trithyd i 'Bassettiaid y Fro' - teulu enwog o Normaniaid a droes yn Gymselog.

"Heilgi feistr yr helgwn - yw
Bassett
A bos tir Tresimwn,
Llon arwr, carwr y cŵn
Offisial o'r hen ffasiwn."

Yna , yn ardal Potnypridd ddiwedd y ganrif ddiwethaf, roedd twshged o feirdd gwlad a elwid yn 'Clic y Bont'. A mae T.W yn gryn awdurdod ar hanes a chynnyrch y rheiny. Bu Eisteddfod Pontypridd (1893) yn un hynod oherwydd i storom enbyd chwythu'r tô lawr. A chafwyd coed o Norwy gan gymwynaswr lleol i ail-godi adeilad. Cyfansoddodd Brynfab, un o 'Glic y Bont' englyn i'r amgylchiad

"Wele'r Wyl ar ei elor - a'r beirdd
Yn brudd iawn drwy'r goror,
Dug polion trymion tramor
Arian teg i'r gerantor".

O'r llu o dribannau a rhigymau sydd ar gof T W, dyma un esiampl deg,

"Iechyd da i'r bugail
Sydd ar y mynydd draw,
Iechyd da i'r ffermwr
Sydd wrth ei gaib a'i raw

Iechyd da i'r labrwr
Sy'n trin y tir i gyd
A iechyd da i finna
Wrth yfad hwn i gyd."

Derbyniwyd T W i'r Orsedd gan yr Archdderwydd Pedrog, a hynny o dan yr enw "Ab Eos". A daeth Ab Eos yn adnabyddus i genedl gyfan ar gorn ei hir wasanaeth i'r Orsedd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Bu'n drysorydd yr Wyl ers blynyddoedd lawer. Ef oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yn Eisteddfodau Caerffili (1950) a Chaerdydd (1960) a derbyn-iodd anrhydedd uchaf yr Eisteddfod pan ddyrchafwyd ef yn Gymrawd.

Eleni y mae T W yn dathlu ei benblwydd yn 87 oed a chyfarchwn ef yn llawen, gan ddiolch iddo am ei wasanaeth clodwiw;

"Englynwr da a phrydydd
A thenor a hanesydd
A phen gymodwr ymhod cur
Rhwng Gwŷr Pentyrch a'i gilydd!

Y gwylaidd Ŵr o'r Gwaelod
A Chymrawd yr Eisteddfod,
Hawddamor, a chyfarchion lu
Ar dydd y dathlu hynod."

Ifor Rees

# HAUL AR FODRWYON



Bore Sadwrn, Mehefin 11, priodwyd Mari Emlyn ac Emyr Roberts yng Nghapel Bethania, Y Felin Heli. Roedd glannau'r 'Fenai dlawd' yn gyfoeth o ddymuniadau da y bore hwnnw a'r haul yn tywynnu ar y ddau y tu allan i'r Capel ac yna ar lawntiau Gwesty'r Bulkele yn Biwmaris. Erbyn hyn mae Mari ac Emyr yn ôl wrth ei gwaith ac yn setlo yn eu cartref newydd yn y Felin Heli - gan barhau hefyd a'u hymdrechion brwd i wahardd datblygiad y Marina arfaethiedig yn y pentre. Dymunwn iddyn nhw lwyddiant yn eu holl gweithgareddau a llawer iawn o hapusrwydd.



Ar ddydd Gwener, Gorffennaf 29 priodwyd Betsan, merch Mair a Gerallt Evans, Llandâf a Malcolm Perrett. Y diwrnod ar ôl ei phriodas gwelwyd Betsan ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn arwain Cantorion Canton gan gynnwys ei gŵr yn y gystadleuaeth i Gorau Cymuned.

Roedd yn bleser gan bawb glywed am ddyweddiad Llinos, merch Einir ac Arfon Williams, Heol Don a Gareth, mab Mary Charles a'r diweddar Barch W J Charles o Bont Henni, Llanelli. Mae'r ddau'n gweithio yn y cyfryngau - Llinos yn HTV a Gareth yn Adran Newyddion y BBC. Deallwn bod dyddiad wedi ei benodi yn yr Hydref ar gyfer y briodas a dymunwn ddiwrnod hapus iawn iddyn nhw a blynyddoedd tebyg i ddod.

# BWTH RUTH



Wel, helo pa hwyl sydd - er mor braf ydi cael seibiant o'r 'bwth' dros yr haf, braf ydi bod yn ol yn eich cwmni chi. Gawsoch chi wylia wrth eich bodd? Ers y tro dwytha mi rydw i wedi treulio wythnos mewn carafan yn y Sioe ac wedi mwynhau cynhesrwydd a chroeso pobl Gwent yn y Steddfod - ond dydwi ddim wedi cael gwylie eto - mae rheiny i ddod!!! Tua'r amser yma bob blwyddyn mi fydda i'n cael rhyw deimlada cymysglyd dros ben - teimlo'i bod yn ddechre blwyddyn rhywsut - dylanwad y flwyddyn addysgol debyg. Cofiwch chi, mi rydwi'n cael yr un broblem ym mis Ebrill gyda dechrau'r flwyddyn ariannol!
Pam na all y flwyddyn addysgol a'r flwyddyn ariannol fynd o Ionawr i Ragfyr? Neu beth am newid rhif y flwyddyn ym mis Medi.
Hwyl i bob un ohonoch chi sy'n cychwyn ar dymor newydd ble bynnag y boch - tan tro nesa - hwyl.

O.N. - ydi'N amser llenwi'r ffurflem dreth incwm d'wch?!!

Dylid anfon deunydd y rhifyn nesaf at y Golygydd, Coed y Pry, 3 Llandennis Ave., Cyncoed, erbyn Medi 16eg.

Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru.


HYSBYSEBWCH YN

Y DINESYDD

AM FANYLION
CYSYLLTER A
TONY COUCH
2 CRYSTAL GLEN
Y WAUN
CAERDYDD

FFON: CAERDYDD
753625 neu
615821 est 344


# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Owen, mab Alwyn a Llywela Evans, Gwenfô ac Amanda Wood o Southend ar achlysur eu dyweddiad. Gan bod y ddau yn feddygon yn Ysbyty Sant Bartholomew yn Llundain prin bydd rhaid i'r naill na'r llall boeni am ei iechyd! Ond brysiwn i ddymuno hapusrwydd a phob llwyddiant iddyn nhw.

Dymuna Mr a Mrs Edryd Lloyd, Rhidian a Nia estyn diolch diffuant i bawb a fu mor garedig trwy air neu weithred yn ystod gwaeledd mam Gill, y diweddar Mrs Megan Jones, Llangrannog. Diolchant hefyd am y geiriau caredig o gydymdeimlad a ddaeth i law ar ôl y golled drist a ddaeth i'w rhan. Dymuna'r teulu gydnabod eu dyled a'u diolch i'r Parch Meurwyn Williams ac i Dr Goodfellow a'r nyrsys o Ganolfan Iechyd Penarth am eu ymweliadau cyson am eu gofal tyner a diflino.

Dymuna Mrs Margaret Davies, Dyfrig ag Elgan, Eirinwg, 1 Dorchester Avenue, Caerdydd, a'r teulu, ddatgan eu diolch cywir i bawb a fynegodd eu cydymdeimlad â hwy ar achlysur marwolaeth ddisymwth Alun, ac i bawb a gyfrannodd at waith y Genhadaeth er cof amdano.

# Y CALENDR

Medi 18

Gwasanaeth unedig dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf am 2 o'r gloch.

Hydref

Cymanfa Ganu Ysgolion Cymraeg De Morgannwg yng Nghapel y Tabernacl, Caerdydd. (manylion yn y Dinesydd)
Ras nawdd Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf rhwng Llanrhaedr-ym-Mochnant a Chaerdydd. (manylion yn y Dinesydd)




Eleni dethlir degfed pen-blwydd y gynhadledd llenyddiaeth plant ac fe'i cynhelir yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd.

## *Y Stori*

**Nos Wener 14 Hydref**

| | |
|---|---|
| 4.00–6.00 | Cofrestru |
| 6.00–6.30 | Croesawu a derbyniad |
| 6.30 | Cinio |
| 8.00 | **The need for story** — Joan Lingard |

**Dydd Sadwrn 15 Hydref**

| | |
|---|---|
| 8.30 | Brecwast |
| 9.30 | **Finding the talent** — Judith Elliot |
| 10.45 | Coffi |
| 11.15 | Grwpiau amlddewis |
| | (i) **Dadansoddi'r stori** — Elfyn Pritchard |
| | (ii) **Pigion** — Ann Saer |
| | (iii) **How publishing works** — Judith Elliot |
| 1.00 | Cinio |
| 2.30 | **Cyflwyno'r stori ar lafar** — Gwenno Hywyn — Cefin Roberts — Maldwyn Thomas |
| 4.00 | Te |
| 6.00 | Swper |
| 7.45 | Seremoni gyflwyno gwobrau Tir na n-Og |

**Dydd Sul 16 Hydref**

| | |
|---|---|
| 8.30 | Brecwast |
| 9.30 | **Ymweliad â Sain Ffagan** — Tecwyn Vaughan Jones |
| 11.15 | Coffi |
| 11.45–1.00 | **Heb stori, heb ddim** — Mairwen Gwynn Jones |
| 1.00 | Cinio |

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf trafodwyd nifer o themâu yn y gynhadledd ond eleni dychwelwn at un o hanfodion pennaf llenyddiaeth plant, sef 'Y Stori'.

Traddodir y ddarlith agoriadol ar y nos Wener gan Joan Lingard, awdur hynod o doreithiog a phoblogaidd ymysg plant a phobl ifanc. Fe'i ganed yng Nghaeredin, ond treuliodd gyfnod ei phlentyndod yn Belfast. Mae ei chefndir a'i hetifeddiaeth yn bwysig iawn iddi ac adlewyrchir hynny yn ei gweithiau. Mae'r gyfres Kevin a Sadie yn darlunio bywyd yn Belfast, ac yn *The Guilty Party* ymdrinir â thema ynni niwclear. Mae cynlluniau ar y gweill i gyfieithu rhai o nofelau Joan Lingard i'r Gymraeg yn y dyfodol agos.

Bore Sadwrn, cyfarwyddwr cwmni Orchard Books yw ein siaradwraig wadd. Bu Judith Elliot yn gyfarwyddwr a golygydd llyfrau plant gyda chwmni Heinemann cyn sefydlu cwmni Orchard. Fe'i cyfrifir ymysg y goreuon o olygyddion llyfrau plant a bydd hithau yn trafod y stori o safbwynt y golygydd a'r cyhoeddwr.

Yn dilyn cynhelir sesiynau amlddewis a gobeithio bod y grwpiau yn cynnwys rhywbeth a fydd at ddant pawb sy'n ymddiddori mewn llyfrau plant. Bydd Elfyn Pritchard yn cynnal gweithdy i ddadansoddi'r stori. Does dim angen cyflwyno Elfyn Pritchard, mae'n un o garedigion llenyddiaeth plant, yn feirniad, adolygydd a golygydd trylwyr. Pigion, neu'r straeon gorau a gyflwynir gan Ann Saer. Bydd yn dewis chwe stori, tair yn Gymraeg a thair yn Saesneg, gan ddarllen pytiau ohonynt gan nodi paham y mae'r straeon hyn yn werth eu cyflwyno i bobl ifainc. Mae Ann Saer yn athrawes yn Ysgol Gyfun Glantaf Caerdydd ac yn ogystal â bod yn feirniad llenyddol craff perthyn iddi'r ddawn o ysgogi plant i ddarllen. Bydd Judith Elliot yn cynnal grŵp trafod ar gyfer golygyddion a cyhoeddwyr.

Ar ôl sesiynau o drafod hanfodion y stori neilltuir sesiwn prynhawn Sadwrn i agwedd bwysig arall, sef cyflwyno'r stori ar lafar. Mae'r tri pherson a fydd yn cymryd rhan yn enwau cyfarwydd iawn i bawb. Bydd Gwenno Hywyn yn darllen storïau plant, Cefin Roberts yn adrodd stori heb sgript a Maldwyn Thomas yn adrodd straeon ysbryd. Yn sicr ddigon bydd yma wledd ar ein cyfer.

Nos Sadwrn cynhelir seremoni gyflwyno gowbrau Tir na n-Og 1988. Eleni cyflwynir y gwobrau Cymraeg i Gwenno Hywyn am ei nofel *'Tydi Bywyd yn Boen!* a Dafydd Orwig, golygydd *Yr Atlas Cymraeg*. Celia Lucas, awdur *Steel Town Cats* fydd yn derbyn y wobr Saesneg. Ceir perfformiadau dramatig gan ddisgyblion Ysgol Gyfyn Glantaf a Rhydfelen o'r llyfrau arobryn.

Fore Sul ceir taith i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan yng nghwmni Tecwyn Vaughan Jones a chawn gyfle i weld rhai o'r trysorau sydd yn gysylltiedig â chwaraeon plant.

Mairwen Gwynn Jones fydd yn cloi'r gynhadledd eleni gyda darlith bwysig iawn—'Heb stori, heb ddim'. Mae Mairwen Gwynn Jones yn enw adnabyddus iawn ym maes llenyddiaeth plant, yn awdur, yn feirniad cenedlaethol, ac yn olygydd. Gyda'i gŵr, golygodd y gyfrol werthfawr, *Dewiniad Difyr*, casgliad o ysgrifau ar lenorion plant Cymru hyd 1950. Mairwen Gwynn Jones oedd sylfaenydd y gynhadledd llenyddiaeth plant gyntaf a bydd ei sylwadau treiddgar hi ar y testun dan sylw yn glo teilwng i'r gynhadledd.

Bydd Siop Oriel yno gyda stondin lyfrau a cheir arddangosfeydd o lyfrau eraill. Er mwyn hwyluso'r trefniadau byddwn yn trefnu cludiant o'r orsaf i'r Ganolfan Chwaraeon ar gyfer y rheiny sy'n dymuno teithio gyda trên a llogir bysiau ar gyfer yr ymweliad â Sain Ffagan.


**Oriel**

**PRIF SIOP LYFRAU CYMRAEG**

- *Pob llyfr o Gymru yn Gymraeg a Saesneg*
- *Arbenigwyr adnoddau i ddysgwyr yr iaith Gymraeg*
- *Pob llyfr ar Hanes Cymru, Llenyddiaeth Gymraeg a diwylliant Cymreig*
- *Llyfrau i blant, cardiau cyfarch, posteri*
- *Cerddoriaeth, baneri*
- *Popeth i Gymru ac i bob Cymro*

Os yw e mewn print mae Oriel yn ei gadw mewn stoc.

Ar agor ddydd Llun — Sadwrn, 9.00-5.30 o'r gloch.
Croeso i ddefnyddio cardiau credyd. Archebwch dros y ffôn — (0222) 395548

Catalogau ar gael, gwasanaeth archebu llyfrau, arbenigwyr cyflenwi ysgolion, barddoniaeth yr ugeinfed ganrif a'r Celfyddydau.

Cyngor Celfyddydau Cymru
53 Heol Siarl
Caerdydd
0222 395548




Llongyfarchiadau cynnes i Alun Treharne a Mair Morris ar eu dyweddiad. Mae eu llu o'u ffrindiau yn dymuno'n dda iddynt.

Da oedd croesawu Ems a Mici Plwm yn ol i'r Brifddinas ar ol eu gwyliau annisgwyl yng nghwmni'r Saint eraill ar Ynys Enlli. Deallwn fod Ems yn awyddus i aros yno fel 'Ceidwad y Goleudy'.



Dyma griw Ail Dim Clwb Peldroed Y Cymric a fu'n llwyddiannus y tymor diwethaf gan ennill dyrchafiad i'r Drydedd Adran. Pob lwc iddynt y tymor hwn.

# WYTHNOS I'W CHOFIO
# O'R MAES

GWEFR, GWYRTH A GORCHEST GWENT

Bellach, nid un Wenynen Gwent sy'n ddiwyd yn meithrin a chynnal y 'pethe'. Mae dycnwch ac ymroddiad y llu gwenyn newydd wedi dwyn blaenffrwyth ysgubol yn Eisteddfod Casnewydd. Un penllanw i'r diwydrwydd anhygoel hwn oedd pasiant y plant na fyddai'n bosib bum mlynedd yn ôl. Yn Theatr Fach y Maes cafodd plant yr adfywiad gyfle i arddangos y gobaith newydd drwy ddrama, dawns a chân. Gwefreiddiol.

Daeth y Gerddorfa Ieuenctid ar ei thro ond nid i berfformio ar y maes ond yng Nghanolfan Casnewydd yn y dref. Er cystal cyfleusterau'r neuadd newydd hon nid cartre'r Brifwyl mohoni. Roedd y cant a deugain o offerynwyr ifainc wedi cyflawni'r wyrth flynyddol a ddylai gael ei chyflawni gerbron cynulleidfa ar lwyfan y Brifwyl beth bynnag fo maint a ffurf y pafiliwn. Os oes rhagor rhwng gwyrth onid yw hi'n hen bryd gofyn cwestiwn - ydy'r Gerddorfa Genedlaethol yn cael ei gwir ymestyn o ran y gweithiau cerddorol a ddewisir ar ei chyfer? Eto'i gyd, erys y wyrth.

Un o orchestion unigol Casnewydd oedd darlith fyrlymus Gwyn Alf ar 'Siartiaeth'. Gorchest arall oedd 'Lliwiau' Rhydderch a ddangoswyd am y tro cyntaf yn Theatr y Maes. Gwasanaeth sy'n haeddu'r gair gorchestol yw gwaith y cyfeilyddion swyddogol sy'n gyson â'r safonau uchaf posib.

Gorchest gwbl arbennig oedd maes ei hun. ni chafwyd a ni cheir ei debyg eto o ran lleoliad, hwylustod, gwasladrwydd a phrydferthwch naturiol. Ond yr orchest fwyaf yw pobl Gwent sydd wedi agor ein llygaid ac sydd, hefyd, wedi cael agor eu llygaid wrth ymdeimlo â'r don fawr o egni diwylliannol sydd wedi'i chronni yng Nghasnewydd. Fydd Gwent fyth r'un fath ac mae hi wedi ennill ei lle fel rhan annatod a hanfodol o'r genedl yn ei holl agweddau. Gwych iawn Gwent.

Wynne Lloyd



Arlwyo Avril
Partïon, ac Achlysuron Arbennig.
Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.
Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.

********************
AR GAEL YN NELSON WELY I UN PERSON PROFFESIYNOL MEWN CARTREF CYFFORDDUS
******
******
AM FANYLION PELLACH
FFONIWCH: CAERDYDD 397911, EST 29
YN YSTOD ORIAU GWAITH
********************


CYFNOD Y DIWYDIANNU A'R DIWYGIO

Yn 1650 cyfieithiodd John Edwards (Siôn Treredyn), person Tredynnog yng Ngwent, waith diwinyddol trwm o'r enw Madruddyn y Ddifynyddiaeth Ddiweddaraf. Cyflwynodd y gwaith i'r ardderchocaf Herbertaidd, y mwynaf Morganiaid, y boneddicaf Kemeysiaid, y gwirlanaf Wiliemsiaid ac eraill pendefigion o fewn wlad Gwent. Dengy hynny fod rhai o brif deuluoedd y sir yn parhau yn y cyfnod hwnnw i ymddiddori mewn llenyddiaeth grefyddol Gymraeg. Cwyna, fod bynnag, fod ei gydwladwyr yn esgeuluso'r iaith Gymraeg ac apelia at yr uchelwyr hynny i barhau eu nawdd iddi. A rhagddo hefyd i esgusodi ei iaith wallus ac mae ei reswm am hynny'n diddorol.

> canys nid wyf fi (a anwyd ar lan Hafren yn un o Went lle mae'r Saesoniaith yn drech na'r Brutaniaith) yn cymeryd arnaf na medraeth nac hyspysrwydd yn y Cymraeg, eithr nid bychan yw fy serch at yr iaith a daioni fy ngwlad.

Sefydlwyd ysgolion gramadeg eisioes yn Y Fenni a Threfynwy a gwnaed ymdrechion i sefydlu ysgolion y Werinlywodraeth, ac wedi hynny ysgolion yr Ymddiriedolaeth Gymreig ac SPCK mewn mannau canolog yn y sir. Yng nghyfnod y Diwygiad Methodistaidd aeth Griffith Jones Llanddowror ati â'i orchwyl i sefydlu ysgolion cylch yno. Edmund Jones, gweinidog amlwg gyda'r Annibynwyr yn y Transh ym Mhont-y-pŵl, a brodor o Aberystruth ger Nant-y-glo, a wahoddodd Hywel Harris i weinidogaethu yng Ngwent yn 1738. Fe'i gelwid 'yr Hen Broffwyd' oblegid dyfalwch ei bregethu a'i diddordeb mawr mewn hygoelaeth.

Buan y lledodd neges y diwygwyr Methodistaidd ymhlith ymneilltuwyr cynnar Gwent.

Tua'r un cyfnod â'r cynnydd mewn Methodistiaeth cafwyd twf graddol ac enfawr mewn diwydiant, a chawsai hynny effeithiau parhaol ar ddwyrain Morgannwg a gorllewin Gwent. Nid bod diwydiant yn ddieithr o gwbl i'r ardaloedd hynny; cloddiwyd glo a chynhyrchwyd haearn ymhell cyn hynny. Sefydlwyd gwaith gwifrau yn Nhyndyrn ac alcan yn Mhont-y-pŵl, ac allforiwyd llawer o'r cynnyrch amaethyddol dros afon Hafren i Fryste o Gasgwent a Chasnewydd. Yng nghwrs y ddeunawfed ganrif sefydlwyd gweithfeydd haearn yn Nhredegar, yng nghymoedd Sirhywi ac Ebwy yng Nglynebwy a Nantyglo. Tyfodd Casnewydd fel porthladd o bwys erbyn 1861 a'i phoblogaeth bryd hynny'n 23,500.

Yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf cynhyrchwyd dur ar raddfa fawr yn Nhredegar, Blaenafon a Glynebwy. I'r cymoedd diwydiannol hynny ymfudodd nifer cynyddol o deuluoedd o ardaloedd gwledig de Cymru, cyfran dda ohonynt yn Gymry Cymraeg ac yn anghydffrufwyr ynghyd â Saeson o orllewin a chanolbarth Lloegr, Gwyddelod, Eidalwyr a Sbaenwyr.

Yn ail hanner y ddeunawfed ganrif pan oedd Prydain yn rhyfela â Ffrainc cyhoeddwyd cyfrolau topograffyddol gan deithwyr a rodiai'n hamddenol trwy Gymru, yn eu plith William Coxe, archddiacon a hanesydd, a ysgrifennodd An Historical Tour of Monmouthshire (1801), cyfrol werthfawr dros ben. Yn 1796 cyhoeddodd David Williams, Waunwaelod ger Elwysilan ym Morgannwg - athronydd, gweinidog anghydffurfiol a sylwebydd o gryn bwys i unrhyw astudiaeth o'r sir yn y dyddiau presennol. Bu'r ddwy gyfrol hyn, ynghyd â ffynonellau eraill, yn sail bwysig i gamp Syr Joseph Bradney pan gyhoeddodd ei hanes manwl a thrwchus o Went yn 1904 ac wedi hynny.

Ar ei rawd hefyd bu Evan Evans (Ieuan Fardd), curad ym Masaleg tua 1780, pan gyfansoddodd ei englynion adnabyddus i lys Ifor Hael gerllaw. Sylwodd yn bennaf ar y cyferbyniad creulon rhwng llawnder a chynhesrwydd llys uchelwrol yr Oesoedd canol a gwacter oer cyfnod y trai a'r difodiant.

> Llys Ifor Hael, gwael yw'r gwedd - yn garnau
> Mewn gwerni mae'n gorwedd;
> Drain ac ysgall mall a'i medd,
> Mieri lle bu mawredd.

Os oedd llys Gwrnyclepa'n adfeilion llwm a difywyd nid felly'r gymdeithas yng Ngwent yng Nghanrif y Frenhines Fictoria. Cafwyd cryn gyffro bryd hynny fel y cawn weld.

HIRAETH AM WENT

(cyfieithiad o un o gerddi W H Davies, gan hepgor un pennill)

A allaf fi fyth anghofio'r dyddiau melys gynt a gaed,
Pan gychwynodd gyffro'r awen gyniwair drwy fy ngwaed;
Ac o fryniau gyfryd Gwent fe welwn y ddaear gron
Wedi ei hollti'n ddwy gan lifeiriant Hafren lon?

Fe awn fy hun yn ddirgel er mwyn gweled, gyda'r nos,
Y lleuad yn digleirio fel iar fach yr haf wen, dlos.
Breuddwydiai wrth yr hen gastell gerllaw Caerllion fwyn,
Ac yn yr ymyl llithrai'r afon Wysg, yn llyfn ei swyn.

A allaf fi fyth anghofio'r dyddiau melys gynt a fu,
A'r holl bentrefi gwyrddlas a oedd fel cartrefi cu?
Gwelais Lantarnam, Magwyr, Malpas a Llanwern cyn hyn,
Llysweri, a Chaerllion hynafol ac Alltyryn.

A allaf fi fyth anghofio glannau Nant Malpas mwy,
Neu lais yr afon Ebwy mewn llawenydd gwyllt, di-glwy,
Yn rhuthro ar ei ffordd, a'i gwddf yn llawn o'r graean mân
Yn byrlymu tua'r môr heb saib yn ei egni glân.

Ac yn awr bob tro y gwelaf bentrefi deiliog ar fy hynt,
Ochneidiaf yn fy hiraeth am yr hen Llantarnam gynt,
Gofynnaf i bob afon lle'r aeth llais yr Ebwy gu,
Wrth gofio am hyfrydwch pur y dyddiau gynt a fu.

D R Griffith
PENARTH

# Cydymdeimlo

ALUN DAVIES

Colli Eisteddfodwr Pybyr

Fe fydd hi'n chwith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd eleni heb Alun Davies yn cerdded y maes, yn cymryd rhan yn seremoniau'r Orsedd ar y dydd Mawrth a'r dydd Iau, yn mynychu darlith flynyddol Cymdeithas Emynau Cymru ar y dydd Mercher a darlith Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion ar y dydd Iau, ac yn trafod rhagoriaethau a gwendidau'r cystadleuwyr cerddorol gyda'i gymheiriaid cyn brysio i ffwrdd i ysgrifennu adolygiadau ar y Cyngerddau Cerddorol ar gyfer y Western Mail.

Bu cysylltiad Alun â'r Eisteddfod yn un brwdfrydig a chyson ers cyn yr adeg iddo ddod â chorau a phartion o Gymry Llundain i gystadlu o dan ei arweiniad ym Mhrifwyliau'r chwe'degau. Teimlai'n falch o'i gysylltiad â'r Eisteddfod Genedlaethol fel cystadleuydd - fel y tystia'r rhes o dystysgrifau teilyngdod ar wal ei stydi yn Eirinwg, Penylan, Caerdydd, yr aelwyd ddedwydd a rannai gyda Margaret a Dyfrig ag Elgan - ac fel arweinydd, beirniad ac un o'r gorseddigion.

Ond nid llai oedd y pleser a gai wrth gerdded y maes ac ymweld â'r cymdeithasau a'r mudiadau amrywiol yn eu pebyll. 'Roedd ef yn ffigwr adnabyddus mewn llawer o'r pebyll hynny yn rhinwedd ei weithgarwch gydol y flwyddyn. Ysgrifennai'n gyson i'r 'Faner' ac i 'Cristion', ef oedd trysorydd Cymdeithas Emynau Cymru, ac yr oedd yn aelod o bwyllgor gwaith Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a'r Urdd er hyrwyddo Cerddoriaeth yng Nghymru. Ac fe fyddai'n siwr o alw ym mhabell yr Annibynwyr, lle y cai ef groeso arbennig iawn yn rhinwedd ei waith dyfal ar Bwyllgor y Caniedydd ac fel arweinydd Cymanfaoedd Canu yn eglwysi'r Enwad yn y De a'r Gogledd.

Yn ogystal â bod yn arweinydd y gân yn Eglwys Minny Street, Caerdydd.

Do, fe gollwyd Eisteddfodwr pybyr ym marwolaeth sydyn Alun Davies, un o Gymry blaenllaw dinas Caerdydd, ar Fehefin 12 eleni. Gŵr ymroddgar a lliwgar yr oedd ei ddiddordeb eirias yn peri iddo gynhyrfu ar brydiau, ond gŵr crwn ei ddiwylliant cerddorol a chyson ei gyfraniad bywiog. Gŵr y bydd bywyd ein cenedl a chaniadaeth ei chysegr yn dlotach o'i golli gyda'i wybodaeth werthfawr am donau ac alawon Cymreig, ei frwdfrydedd heintus a'i barodrwydd at waith.

W Eifion Powell

Cydymdeimlwn yn ddwys a Rhiannon ac Indeg ar eu profedigaeth o golli'i mam yn ddiweddar, sef gweddw y diweddar actor Ieuan Rhys Williams. Mae ein meddyliau efo chi.

## TAFLU'R BÊL YN ÔL

Sylwais yn rhifyn mis Mehefin o'r Dinesydd ar sylw a wnaed gan Mrs Cathi Jones am ddiffyg darpariaeth ar gyfer yr oedrannus ymhlith Cymry Cymraeg Caerdydd. Cyfeiriodd at yr angen am ganolfan a fyddai'n darparu cwmpeini, paned a phryd er mwyn dileu unigrwydd a chreu diddordeb.

Carwn ateb fy mod ar ddau achlysur wedi anfon at y Dinesydd i ofyn a oedd unrhyw un ymhlith y rhai hŷn yng Nghaerdydd a fyddai a diddordeb mewn cyd-gyfarfod yn achlysurol. Pe bai diddordeb buaswn yn barod i fynd ati i drefnu'r cyfryw wasanaeth. Ni fu unrhyw ymateb o gwbl ac ni allwn llai na dod i'r casgliad na fynnai neb i mi drefnu ar eu cyfer.

Mae'r cynnig wrth gwrs yn dal yn agored. Ond mae'n rhaid i mi ychwanegu yn frysiog, os ydym i drefnu canolfan ddyddiol o'r fath a awgrymir byddai angen canolfan, cyfalaf a gwirfoddolwyr o blith Cymry Caerdydd. Nid yw'n credu y bydd unrhyw diffyg i ffeindio canolfan, mae na sawl festri y gellid eu defnyddio. Byddai'n rhaid edrych am gronfeydd ac arian er pwrcasu'r cyfarpar angenrheidiol. Yn ychwanegol at hyn bydd angen Pwyllgor i fod yn gyfrifol am fenter ac ewyllys da unigolion a fydd yn barod i arwain, paratoi prydau a gweini heb son am gludo rhai i'r ganolfan.

Gaf i felly daflu'r bêl yn ôl i gwrt Cymry Cymraeg Caerdydd gan ofyn a fyddent yn barod i ymgymryd a'r tasgau hyn, a'n galluogi i fynd ati os profir yr angen.

Fel y ddeudro diwethaf byddaf yn falch i glywed wrth unrhyw un i'r perwyl yma.

D Haydn Thomas
Cyfarwyddwr Cyngor Henoed Cymru

CYSTADLEUAETH CYFANSODDI EMYN-

## CYSTADLEUAETH CYFANSODDI EMYN-DON

Gwahoddir ceisiadau am gyfansoddi ton 4-rhan i gydfynd a geiriau Cymraeg (cyfieithiad Saesneg ar gael) a luniwyd gan y Parchedig W Rhys Nicholas (Porthcawl). Cenir y cyfansoddiad buddugol mewn cyngerdd i'w chynnal yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ar y 6 o Fai, 1989 gan Gôr cymysg o rai cannoedd o leisiau o gorau yn Ne Cymru. Beirniedir y gystadleuaeth gan arweinyddion y corau ac arweinydd gwadd y gyngerdd. Hefyd, rhoddir £50 i'r cyfansoddwr. Ehiad derbyn ceisiadau erbyn Rhagfyr 1, 1988.

Dylai'r sawl sydd a diddordeb mewn cystadlu ysgrifennu at

Mr Gwili Lewis
22Wimborne Road
Pencoed
Mid Glamorgan
CF35 6SG

gan ddanfon amlen gyda stamp a chyeiriad arni.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

# CRWYS

Mae'r Dinesydd wedi cyfeirio fwy nag unwaith at y ffaith fod y Presbyteriaid Cymraeg a fu'n cyfarfod yn Heol y Crwys ers dechrau'r ganrif ar fin newid cartref. "Eglwys y Crwys" fu'r enw cyfarwydd ledled y wlad ers blynyddoedd ac "Eglwys Presbyteraidd Cymru - Eglwys y Crwys" yw'r enw newydd, gan gadw'r cysylltiad â'r gorffennol.

Erbyn hyn gwerthwyd yr adeilad yn Heol y Crwys i gynulleidfa o Fwslimiaid, i'w droi yn ganolfan i weithgareddau eu crefydd hwy. Yn Richmond Road mae adeiladwyr yn prysur addasu hen fan cyfarfod y Gwyddonwyr Cristnogol ar gyfer cychwyn pennod newydd yn hanes yr "Hen Gorff" yn y ddinas.

Mae'n drueni mai to fflat a osodwyd ar yr adeilad yn wreiddiol; bydd to o'r fath yn rhwym o achosi problemau, ac felly rhaid oedd codi to brig yno nawr. Doedd dim galeri yno, ond mae galeri newydd yn cael ei osod ar hyn o bryd. Doedd y gynulleidfa flaenorol ddim yn defnyddio pulpud, ond fe gaiff yr Eglwys bulpud newydd yn rhodd gan Mrs Nan Howell a'i mab Gareth er cof am y diweddar Lyn Howell. Bydd yno le ymgynnull newydd - yn ychwanegol at festri'r plant - ar gyfer cyfarfodydd ac achlysuron cymdeithasol, ac, wrth gwrs, cegin.

Un o atyniadau'r adeilad hen oedd bod yno nifer o ystafelloedd llai, yn ychwanegol at y cysegr ei hun, a allai fod yn addas iawn ar gyfer gwahanol weithgareddau'r Eglwys, a'r bwriad yw defnyddio'r cyfleusterau hyn i ehangu gweithgarwch yr eglwys a'i heffaithlonrwydd cenhadol yn y cylch.

Diolch i garedigrwydd a chroeso cynnes aelodau Eglwys Annibynol Minny Street, mae cynulleidfa Eglwys y Crwys yn cyfarfod ac yn cydaddoli yno dros dro. Bydd yr addoldy newydd yn Richmond Road yn barod ddechrau Medi, ac, fel y dywed Gweinidog "y Crwys", y Parchedig W I Cynwil Williams, ar ddiwedd cyfrol y dathlu - "Cofio yw Gobeithio".

"Mae'r lle hwn yn llawn o bosibiliadau! Ar ôl canrif fe gredwn minnau, o raid ac o argyhoeddiad, fod hyn yn wir am yr Eglwys a roddwyd i'n gofal ni ar drothwy canrif arall."

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

Aelod o FIMBRA

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 83



**Ar Draws:**
1. Cadwyd da Bedwyr oedd yn crwydro (8)
5. Laundrette fy nain (6)
9. Trefnodd Bangor ei chwrs i gael gwybodaeth fanwl o'r maes (8)
10. Man geni'r sant (6)
14. "Ac ----- pob creadur ..." (R.J. Llanllyfni) (5)
11. Methiant y faelfa (2,3,4'1, 4)
15. Calon y pren llydanfrig yn taflu sarhad (5)
16. Naid i ganol fflwcs bon clawdd (5)
17. Fel y gwnaeth Hamlet yn y Drydedd Act (5)
20. Hamldet eto, er enghraifft (5)
22. Ai o'i ben bos-banc y nyddodd Ap L y cliw? Ie'n bendant (3,2,3,6)
24. Methu a wna'r slimreg (6)
25. Yr hyn a ddigwyddodd ar ddiwrnod ffein? (8)
26. Y bu iddynt fod (6)
27. Deddf yr un ar chwal yw cytundeb barn (8)

**I Lawr:**
1. Amgen (4)
2. "Yn fy enaid --- -- --" (W.W (3,2,2)
3. Yn 'i wendid helbulus y gwelir y gwirion (7)
4. Bydd dyn yma ag adnoddau i ddod i ddysgu'r ffeithiau (11)
6. Ai y ser o gwmpas y gwaith o lunio'r cyfnod (3,2,2)
7. Ceisiaf ddiben ar ol chwilen ddi-gwt i ddod o hyd iddi (7)
8. Boutique fy nain (1,4,5)
12. Cewch y papurau nosol i'w nyth o gael newid eu diwyg (ac amledd eu cyhoeddi) (11)
13. Gwrthrych annel (a beirniadaeth) (5,5)
18. Dirwest y dwysgoed? (7)
19. Down yn agosach at ddeall pan fyddwn yn sane hwn (7)
20. Eu nod yw cyrraedd y brig (7)
21. Cawsant friw yn amlwg pan roddodd Diana fwyd iddynt (7)
23. Enw od ar bapur wythnosol yn Nolgellau (1,3)

**Cystadleuaeth Rhif 82**

Derbyniwyd pedair-ymgais-ar-ddeg ond roedd man-wallau mewn naw ohonynt. O'r pump hollol gywir, tynnwyd o'r het enw Huana Simpson, o Is-y-coed Fach, Llansanwyr, Y Bontfaen, ac iddi hi yr aeth y tocyn llyfr. Gobeithio ei bod hi eisoes wedi ei dderbyn. Y pedwar anlwcus oedd J.Lloyd, Ger y Llyn; Rhian Williams, Clearwater Way; B.H. Cyncoed a Marged Davies, Llandaf.

**Datrysiad 82**

**Ar Draws:**
5. BWRLWM; 6. DILLADA;
9. MANTOL; 10. MONA LISA;
11. HUAL; 12. ANYSTYWALLT;
13. AMHARODRWYDD; 18. PRYD-FERTHWCH; 21. ADDEF;
22. HIRAETHOG; 23. EDAFEDD;
24. TRECHWR; 25. AETHOST

**I Lawr:**
1. ERS TALWM; 2. CHWALFA;
3. AIL NATUR; 4. RHAGLAW;
5. BLAGUR; 7. ARSYLLU;
8. YMGYFOETHOGI; 14. AREITHIWR;
15. YMADAWODD; 16. BRAINT;
17. GELERT; 19. DIANGEN;
20. CHWECHED

## TAFLEN

Yn dilyn arddangosfa lwyddiannus o waith diweddar Mary Lloyd Jones mae Taflen ar hyn o bryd yn gartref i arddangosfa liwgar ac amrywiol gan aelodau o Urdd Gwneuthurwyr yng Nghymru (The Makers Guild in Wales).

Dyma gyfle gwych i weld a phrynu gwaith llaw o safon uchel. Mae'r gwaith yn cynnwys gwaith gwydr gan Richard Price o Bontyclun, gwaith pren, lledr, brodwaith, gwaith gweu a chrochenwaith o bob math. Os y bu hi'n uchelgais gennych i fod yn berchen ar dy tafarn, dyma'ch cyfle i wireddu'ch breuddwydion! Galwch i mewn i weld gwaith arbennig Ned Heywood.

Ar ol arddangos yn Aberystwyth, Cwmbran a Rhuthun, a Chas-newydd yn ddiweddar, mae'r Urdd yn dychwelyd i Gaerdydd am y tro cyntaf ers 1984 ac fe fydd yr arddangosfa ymlaen tan Medi 14eg.

Fe fydd yr arddangosfa sy'n dilyn yn dwyn y teitl 'Gwneud Argraff', sef arddangosfa o brintiadau yn defnyddio dulliau amrywiol gan 4 artist o Dde Cymru.

Eglurluniau du a gwyn yw arbenigrwydd Pat Gregory ac er na fydd y gwreiddiol ar werth fe fydd cyfle i brynu cardiau gyda'r darluniau wedi eu hargraffu arnynt.

Bu Jill Barker yn gweithio fel arlunydd preswyl mewn Ysgol Uwchradd yn y Barri yn ddiweddar. Mae hi'n arbenigo mewn argraffiadau pren cain a manwl iawn.

Gwaith tra gwahanol a welir gan gwmni Disi Designs. O'u gweithdy ym Mhontcana maent wedi ennill eu plwyf fel argraffwyr sgrin sidan, yn canolbwyntio ar argraffu ar Grysau T. Ar gyfer yr arddangosfa hon maent yn argraffu nifer cyfyngedig o brintiadau arbennig ar bapur yn ogystal ag argraffu'r un cynlluniau ar Grysau T.

Americanwr o Brooklyn, Efrog Newydd, sy'n ymgartrefu ym Mhorthcawl yw Paul Peter Piech. Mae ei brintiadau leino pwerus yn adnabyddus ledled Prydain bellach. Yn arbennig ar gyfer Taflen fe gynlluniodd Paul bedwar poster gwahanol wedi eu selio ar 4 o ganeuon Dafydd Iwan - Bod yn Rhydd, Cerddwn Ymlaen, Myn Duw Mi A Wn y Daw, a Pam Bod Eira Yn Wyn. Fe fydd pob un o'r nifer cyfyngedig o bosteri wedi eu harwyddo gan Paul Piech a Dafydd Iwan felly ymunwch yn y dathlu a Cherddwch Ymlaen - i Taflen!!